
# Dyfodol Cymru: beth yw'r opsiynau?

## DIOGELU DATGANOLI



**BETH SYDD EI ANGEN YN SYTH:**

**Gwella'r ffordd mae'r setliad yn gweithio drwy ddiogelu pwerau'r Senedd, rhoi'r berthynas rhwng y llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth y DU ar sylfaen gryfach, a rhoi pwerau newydd i'r Senedd, yn unol â Senedd yr Alban.**

Deddf newydd i rwystro Senedd San Steffan rhag pasio deddfau ar faterion datganoledig heb gytundeb y Senedd

Deddf newydd i gryfhau'r berthynas rhwng llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru ar sail partneriaeth gyfartal a chydweithredu

Rhagor o hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru gael gwerth am arian wrth reoli ei chyllid

Datganoli pwerau newydd i'r Senedd – cyfiawnder, plismona a seilwaith rheilffyrdd

## ATGYFNERTHU DATGANOLI

**Cryfhau'r setliad ymhellach, gyda chynrychiolaeth ffurfiol o Gymru yn San Steffan.**



Ail Siambr fyddai'n cynrychioli'r gwledydd datganoledig yn ffurfiol yn San Steffan

Adolygiad cynhwysfawr o gyllid cenedlaethol a rhanbarthol, ar sail anghenion pob rhan o'r DU

Proses newydd i ddiweddaru pwerau'r Senedd a chael gwared ar gyfyngiadau di-angen

## DU FFEDERAL

**Byddai'r DU yn dod yn wladwriaeth ffederal, gyda phŵer yn cael ei rannu'n ffurfiol rhwng llywodraeth y DU a llywodraethau'r gwledydd a'r rhanbarthau.**



Cyfansoddiad ysgrifenedig i ddiffinio sut byddai'r pwerau'n cael eu dosbarthu ar bob lefel o lywodraeth


Byddai gan Loegr (neu ranbarthau Lloegr) ei llywodraeth a'i senedd ei hun

Cynrychiolaeth ffurfiol o'r gwledydd (a'r rhanbarthau) ar lefel y DU, er enghraifft mewn ail siambr ddiwygiedig

Strwythurau ffurfiol ar gyfer cydweithredu a datrys anghytundebau rhwng llywodraeth y DU a'r gwledydd a'r rhanbarthau

## CYMRU ANNIBYNNOL

**Byddai Cymru'n dod yn wladwriaeth, ar wahân i'r DU.**



Byddai'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bob agwedd ar lywodraeth yng Nghymru

Gallai Cymru wneud cais i ymuno â'r Cenhedloedd Unedig a sefydliadau rhyngwladol eraill, ochr yn ochr â gwladwriaethau sofran eraill

Byddai telerau ymadawiad Cymru o'r DU, a'r berthynas rhyngddynt ar ôl annibyniaeth, yn cael eu negodi gyda llywodraeth y DU

Gallai Cymru ddod yn annibynnol heb newid cyfansoddiadol mawr yng ngweddill y DU

# Dyfodol Cymru: beth sydd angen i ni ei ystyried?

**Mae gan bob opsiwn ar gyfer dyfodol Cymru gyfleoedd a heriau**

**Mae'r diagram isod yn amlinellu'r meini prawf rydyn ni wedi'u defnyddio i asesu'r cyfleoedd a'r heriau hyn, wedi'u rhannu'n dair thema graidd, a phedair is-thema.**

**Ar y tudalennau canlynol, rydym yn crynhoi'r cyfleoedd a'r heriau a ystyrir ar gyfer pob thema ac is-thema.**

## Egwyddorion



- Atebolrwydd
- Galluogedd
- Sybsidiaredd
- Cydraddoldeb a chynhwysiant

## Materion Ymarferol





- Dibyniaethau allanol
- Capasiti a chost
- Sefydlogrwydd llywodraeth
- Llywodraeth gydgysylltiedig


## Polisïau



- Cyllid cyhoeddus
- Polisi economaidd
- Sefydlogrwydd economaidd
- Llif pobl a nwyddau

| Egwyddorion | Atebolrwydd | Galluogedd | Sybsidiaredd | Cydraddoldeb a chynhwysiant |
|---|---|---|---|---|
| <br>**Diogelu ac atgyfnerthu datganoli** | byddai mesurau i ddiogelu datganoli yn gwella atebolrwydd<br><br>byddai’r cyfrifoldeb dros ganlyniadau fel tlodi a chyflogaeth yn dal i gael ei rannu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | mwy o gyfle i wneud penderfyniadau yng Nghymru<br><br>Byddai rheolaeth Llywodraeth Cymru dros gyfanswm y gwariant cyhoeddus yn dal yn gyfyngedig | byddai datganoli pellach yn cynyddu sybsidiaredd | cwmpas ar gyfer rhagor o amrywiaeth polisi rhwng cenhedloedd y DU<br><br>cadw cydbwysedd cryfach ar ymarfer pŵer, a datrys anghydfodau’n fwy annibynnol, yn helpu i orfodi hawliau |
| <br>**DU ffederal** | gallai cyfansoddiad ffederal wneud cyfrifoldebau'n gliriach<br><br>mecanweithiau tryloyw ar gyfer datrys anghydfodau rhwng llywodraethau<br><br>cyfrifoldeb am lawer o ganlyniadau’n cael eu rhannu rhwng llywodraethau ffederal a thaleithol | byddai gan y Senedd fwy o reolaeth dros drethi a gwariant ar lefel y dalaith<br><br>diogelwch cyfansoddiadol sy’n gwella’r galluogedd mewn cysylltiadau rhynglywodraethol | mae gan strwythurau ffederal fecanweithiau clir ar gyfer arfer pwerau ar wahanol lefelau<br><br>eglurder statws ar gyfer pob lefel o lywodraeth<br><br>penderfynu ar sut caiff y pwerau eu rhannu fel rhan o sefydlu'r ffederasiwn | mwy o amrywiaeth o ran polisi rhwng cenhedloedd y DU, yn enwedig petai cymwyseddau cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu dal ar lefel y dalaith<br><br>mae cyfansoddiad ffederal yn gallu gwreiddio hawliau cydraddoldeb a chynhwysiant, ond penderfyniadau gwleidyddol sy’n pennu hawliau pwy sy’n cael statws cyfansoddiadol |
| <br>**Cymru annibynnol** | yn fwyaf clir o ran atebolrwydd dros benderfyniadau<br><br>mae atebolrwydd effeithiol yn dibynnu ar strwythurau craffu a chyfryngau annibynnol | mae gan ddinasyddion fwy o ddylanwad uniongyrchol dros fwy o benderfyniadau<br><br>cytundebau rhyngwladol yn cyfyngu ar benderfyniadau | holl bwerau’r llywodraeth yn cael eu harfer yng Nghymru<br><br>gallai ymaelodi â sefydliadau rhyngwladol yn y dyfodol (ee yr UE) gyfyngu ar benderfyniadau | gallai cyfansoddiad Cymru annibynnol wreiddio hawliau cydraddoldeb a chynhwysiant yn amodol ar ddewisiadau gwleidyddol |

| Materion Ymarferol | Dibyniaethau allanol | Capasiti a chost | Sefydlogrwydd llywodraeth | Llywodraeth gydgysylltiedig |
|---|---|---|---|---|
| <br>**Diogelu ac atgyfnerthu datganoli** | rhaid cael deddfwriaeth yn Senedd San Steffan i ddatganoli rhagor o bwerau<br><br>mwy o rôl i'r Goruchaf Lys o ran diogelu datganoli | mae system gyllido ar sail anghenion yn fwy tebygol o dalu costau darparu gwasanaethau yng Nghymru<br><br>angen capasiti ychwanegol i arfer pwerau newydd | cyfyngiadau ar allu Llywodraeth y DU i newid y setliad heb gytundeb<br><br>gall sofraniaeth seneddol olygu bod llywodraethu datganoledig yn ansefydlog | gallai pwerau datganoledig mwy cydlynol, a phrosesau rhynglywodraethol cryfach, olygu llai o wrthdaro rhwng y llywodraethau |
| <br>**DU ffederal** | byddai angen cefnogaeth pedair gwlad y DU i ddeddfu | parhad llawer o gyfrifoldebau a sefydliadau ar lefel ffederal<br><br>efallai byddai angen capasiti polisi, cyllidol ac ariannol newydd pe bai'r cyfrifoldebau'n cael eu rhannu mewn ffordd wahanol | byddai cyfansoddiad ffederal yn cynnig mwy o sefydlogrwydd gwleidyddol a chyfreithiol<br><br>llai o hyblygrwydd i addasu dosbarthiad pŵer fel y nodir yn y cyfansoddiad | cyd-sofraniaeth ffurfiol, sy'n creu'r posibilrwydd o gyd-gymhwysedd a rhagor o gydlyniad |
| <br>**Cymru annibynnol** | byddai angen cytuno ar y telerau ymadael â'r DU gyda llywodraeth y DU | cyfle i ddylunio strwythurau a systemau gwahanol<br><br>angen creu sefydliadau newydd i arfer holl gyfrifoldebau'r wladwriaeth gyda heriau sylweddol o ran costau a recriwtio | cyfle am sefydlogrwydd cyfreithiol a chyfansoddiadol<br><br>byddai sefydlogrwydd yn dibynnu ar ffactorau allanol a pherthnasoedd â gwladwriaethau eraill | y cwmpas llawnaf ar gyfer cydlynu ac integreiddio gwasanaethau'r llywodraeth yng Nghymru<br><br>gallai'r angen i gynnal teithio trawsffiniol a/neu gytundebau masnach gyfyngu ar opsiynau polisi |

| Polisïau | Cyllid cyhoeddus | Polisi economaidd | Sefydlogrwydd economaidd | Llif pobl a nwyddau |
|---|---|---|---|---|
| <br>**Diogelu ac atgyfnerthu datganoli** | gallai system gyllido newydd sy’n seiliedig ar anghenion fod o fudd i Gymru | gallai system gyllido sy’n seiliedig ar anghenion greu cyfle i fuddsoddi mwy yn seilwaith Cymru | mae newid esblygiadol yn golygu mwy o siawns o sefydlogrwydd economaidd | ffin agored gyda Lloegr, yn hwyluso masnach a theithio personol |
| <br>**DU ffederal** | byddai mecanwaith cyllido ffederal gyda mwy o wariant yn cael ei ariannu gan drethi lleol a benthyca yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r gwledydd ac i'r rhanbarthau<br><br>gallai hyn gynyddu'r risg ariannol oni bai fod trosglwyddiadau ariannol i liniaru gwahaniaethau rhanbarthol | gallai mwy o ryddid ar drethiant a gwariant alluogi mwy o arloesi o ran polisïau<br><br>system sy’n seiliedig ar reolau ar gyfer dyrannu buddsoddiad yn debygol o fod o fudd i Gymru<br><br>risg o ‘ffoi rhag treth’ pe bai gan Gymru drethi uwch na Lloegr | gallai ansicrwydd a negodiadau croes wrth sefydlu ffederasiwn niweidio hyder y farchnad | Marchnad sengl y DU a ffiniau agored yn debygol o barhau |
| <br>**Cymru annibynnol** | byddai angen dewisiadau polisi caled yn y tymor byr-canolig<br><br>y potensial am ddiffyg ariannol sylweddol, ar raddfa sy’n dibynnu ar negodi setliad annibyniaeth<br><br>gall gymryd 20-50 o flynyddoedd i fynd i'r afael â’r problemau strwythurol sy'n sail i sylfaen drethu isel | mwy o ryddid i lunio polisïau macroeconomaidd<br><br>byddai marchnadoedd ariannol, capasiti cyllidol, a chytundebau rhyngwladol yn cyfyngu ar opsiynau polisi | dim rhwyd ddiogelwch ar gyfer argyfwng rhyngwladol/ariannol<br><br>marchnadoedd rhyngwladol yn ymateb yn wael i ansefydlogrwydd ac ansicrwydd gwleidyddol, megis yn ystod negodiadau ymadael | byddai symud ar draws ffiniau yn rhan o’r trafodaethau ymadael<br><br>rhyddid i benderfynu ar ei rheolau dinasyddiaeth ei hun |